



Neges gan eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu

A message from your Police and Crime Commissioner



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER



Heddlu Police
DYFED-POWYS

Fel eich Comisiynydd, diogelwch yr holl breswylwyr a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys yw fy mlaenoriaeth a dyma fydd bob amser yn dod yn gyntaf. Rwyf wedi ymroi i gynrychioli ac ymgysylltu'n llawn gyda chymunedau a byddaf yn gweithredu fel llais y cyhoedd ar bob mater heddlu a throseddu. Rwy'n addo cynnal trafodaethau gweithredol ac agored gyda chi er mwyn sicrhau bod pryderon lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn cael eu deall. Byddaf yn gweithio'n agos gyda phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n effeithiol ac yn effeithlon wrth gadw pobl yn ddiogel, cefnogi dioddefwyr a dod â phobl gerbron llyso.

Dros y 10 mis diwethaf, rwyf wedi:

- Apwyntio Mark Collins fel Prif gwnstabl newydd Heddlu Dyfed-Powys;
- Diogelu lle ar Fwrdd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cenedlaethol;
- Ail-strwythuro Swyddfa'r Comisiynydd a Throseddu - Heb penodi dirprwy Gomisiynydd;
- Sefydlu perthynas newydd gyda phartneriaid a pharhau i gysylltu gydag sefydliadau presennol; a
- Chychwyn prosiect i ddatblygu technoleg newydd er mwyn ail-fuddsoddi mewn teledu cylch cyfyng.

Edrychaf ymlaen at eich gwasanaethu fel y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, gan gydweithio i ddiogelu ein cymunedau.

As your Commissioner, the security and safety of the residents served by Dyfed-Powys Police is my priority and will always come first.

I am committed to representing and engaging fully with communities and will act as the voice of the public on all police and crime matters. I promise to conduct active and open discussions with you to ensure that local, regional and national concerns are understood.

I will work closely with community safety and criminal justice partners to ensure that services are effective and efficient at keeping people safe, supporting victims and bringing people to justice.

Over the last 10 months I have:

- Appointed Mark Collins as the new Chief Constable for Dyfed-Powys Police;
- Secured a place on the National Police and Crime Commissioners Board;
- Restructured the Office of the Police and Crime Commissioner - Not appointed a deputy;
- Established new relationships with partners and maintained contact with existing partnering organisations; and
- Initiated a CCTV project to re-invest in new technology.

I look forward to serving you as the Police and Crime Commissioner, working together in safeguarding our communities.

Dafydd Llywelyn

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner Dyfed-Powys**

Hysbysiad Treth y Cyngor ar gyfer 2017-18

Council Tax Notice for 2017-18




COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Un o fy mhrif ddyletswyddau fel Comisiynydd yw penderfynu ar braesept treth cyngor priodol ar gyfer trigolion. Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r cyhoedd, fe benderfynwyd codi'r braesept o 6.9%.

Wrth osod y braesept, cymerais mewn i ystyriaeth yr adborth a gefais trwy'r ymgynghoriad ac ystyried y cyllid sydd angen ar gyfer caniatáu i'r Heddlu gwella'r wasanaeth a chefnogi fy mlaenoriaethau fel y Comisiynydd. Rwyf wedi dewis y cynnydd hwn yn y praesept fel fy mod i'n medru ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau ledled ardal Dyfed-Powys, fel bod yr Heddlu'n medru gwneud y buddsoddiad sydd angen arno i fodloni gofynion amrywiol plismona.

Band Eiddo/ Property band	Treth Cyngor/ Council Tax
A	142.58
B	166.34
C	190.11
D	213.87
E	261.40
F	308.92
G	356.45
H	427.74
I	499.03



One of my key duties as the Commissioner is to decide on an appropriate council tax precept for residents. Following a public consultation, it was decided that the precept would be raised by 6.9%. In setting the precept, I took into account the feedback received from the consultation and considered the funding necessary to allow the Force to improve services and to support my priorities as the Commissioner. I have chosen this rise in the precept so that I can re-invest in services throughout the Dyfed-Powys area and so that the Force can make the investment it needs to meet the ever changing demands of policing.

Gwybodaeth ariannol:

www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/beth-rwyn-gwneud/dogfennau-swyddogol/cyllid/

Finance Information:

www.dyfedpowys-pcc.org.uk/en/what-i-do/official-documents/finance/

Cyllideb Refeniw	2016/17	2017/18	Revenue budget
	£m	£m	
Cyfanswm y Gwariant Gros	107.843	111.212	Total Gross Expenditure
Incwm	-4.184	-5.379	Income
Grantiau Eraill	-7.266	-7.265	Other Grants (Home Office)
Cyfraniad o Gronfeydd wrth Gefn	-3.052	-1.952	Net contribution from Reserves
Cyllideb Angenrheidiol	93.342	96.616	Budget Requirement
Grant yr Heddlu	-37.117	-36.598	Police Grant (Home Office)
Trethi Annomestig	-8.277	-8.161	Non-Domestic Rates (Welsh Government)
Grant Cynnal refeniw	-4.618	-4.554	Revenue Support Grant (Welsh Government)
Praesept Treth Gyngor	-43.33	-47.303	Council Tax Precept
Cyfanswm y Cymorth Ariannol	-93.342	-96.616	Total Funding
Asesiad o Wariant Safonol	34.488	35.151	Standard Spending Assessment
Cyllideb Gwariant Cyfalaf	7.857	9.222	Capital Expenditure Budget
Amcangyfrif o gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol	21.748	16.946	Estimate of reserves at end of financial year

Fy mlaenoriaethau ar gyfer 2017-2021

My priorities for 2017-2021

Blaenoriaeth 1: Cadw ein cymunedau'n ddiogel

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae ffigurau trosedd a gofnodir wedi dangos fod gan Heddlu Dyfed-Powys y nifer lleiaf o droseddau a gofnodwyd fesul pen o'r boblogaeth o ran pob lluoedd yng Nghymru a Lloegr. Yn ogystal â blaenoriaethu atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, byddaf yn canolbwyntio ar ddiogelwch ein ffyrdd, gan dargedu gyrwyr di-hid ac amddiffyn defnyddwyr y ffyrdd.

Priority 1: Keeping our communities safe

During the last few years, recorded crime figures have shown that Dyfed-Powys Police has the lowest number of recorded crimes per head of population of all police forces in England and Wales. As well as prioritising the prevention of crime and anti-social behaviour, I will focus on the safety of our roads, targeting reckless drivers and protecting road users.

Blaenoriaeth 2: Diogelu'r rhai agored i niwed

Mae pawb yn haeddu byw'n ddiogel, heb niwed neu gamdriniaeth beth bynnag fo'u hoed, ethnigrwydd, anabledd, iechyd, cyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw ffactor arall. Mae'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas mewn perygl arbennig o ddod yn ddiodefwr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae diogelu pobl agored i niwed yn faes cymhleth sy'n galw am ymagwedd aml-asiantaeth. Byddaf yn canolbwyntio ar fentrau atal ac ymyrraeth cynnar trwy weithio gyda sefydliadau partner drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddiogelu plant a phobl ifanc, teuluoedd ac oedolion agored i niwed.

Priority 2: Safeguarding the vulnerable

Everyone deserves to live safely, free from harm and abuse regardless of their age, ethnicity, disability, health, sexual orientation or any other factor. The most vulnerable people in society are particularly at risk of becoming victims of crime and anti-social behaviour.

Safeguarding vulnerable people is a complex area and requires a multi-agency approach. I will focus on prevention and early intervention initiatives by working with partner organisations through the Public Service Boards to safeguard children, young people, families and vulnerable adults.

Blaenoriaeth 3: Amddiffyn ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol

Er bod Heddlu Dyfed-Powys yn gyfrifol am ymdrin â bygythiadau lleol, mae bygythiadau cenedlaethol fel terfysgaeth a throsedd cyfundrefnol yn galw am ymateb ar y cyd ar draws dau neu'n fwy o heddluoedd. Mae'r Gofyniad Plismona Strategol (GPS) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau mewn perthynas â bygythiadau cenedlaethol. Byddaf yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl, heddluoedd eraill, partneriaid ac asiantaethau rhanbarthol a chenedlaethol i ymateb i'r bygythiadau yn sgil terfysgaeth a throseddau difrifol a chyfundrefnol drwy weithredu'n effeithiol fesurau gwrthderfysgaeth y DU; erlid, amddiffyn, atal a pharatoi.

Priority 3: Protecting our communities from serious threats

Whilst Dyfed-Powys Police is responsible for tackling local threats, national threats such as terrorism and organised crime require a coordinated and joint response across two or more forces. The Strategic Policing Requirement (SPR) requires the Chief Constable and the Police and Crime Commissioner to ensure that we fulfil our responsibilities in respect of national threats. I will work with the Chief Constable, other forces, partners and regional and national agencies to respond to the threats posed from terrorism and serious and organized crime through the effective implementation of the UK's counter-terrorism measure; pursue, protect, prevent and prepare.

Blaenoriaeth 4: Cysylltu gyda chymunedau

Un o'r prif flaenoriaethau a nodwyd yn sgil ymgynghori gyda'r cyhoedd, grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid eraill oedd y dymuniad am wasanaeth heddlu gweladwy a hygyrch.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gwasanaethu ardal ddaearyddol eang gyda phoblogaeth gymharol fach a gwasgaredig, sy'n creu her arbennig wrth drosglwyddo gwasanaethau'r heddlu. Mae rhai o'n cymunedau'n anghysbell iawn a gallant fod yn byw milltiroedd oddi wrth orsaf heddlu. Er mwyn anerch hyn rwyf wedi apwyntio Swyddog Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn fy helpu i ddeall pryderon ein cymunedau.

Priority 4: Connecting with Communities

One of the top priorities identified through consultation with the public, community groups and other stakeholders is the desire for a visible and accessible police service.

Dyfed-Powys Police serve a vast geographical area with a relatively small and dispersed population, which presents a specific challenge for the delivery of police services. Some of our communities are very isolated and can live miles from a police station. To address this, I appointed a Community Engagement Officer who will act as my advocate in understanding the concerns of our communities.